MC
MATERION CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

ARWEINYDD NEWYDD I'R CYNGOR

Cadarnhawyd y Cynghorydd Jane Mudd yn Arweinydd newydd Cynghorydd ar ddiwedd mis Tachwedd.

Mae'r Cynghorydd Mudd yn olynu'r cyn-Arweinydd, Barwnes Wilcox o Gasnewydd, sydd wedi sefyll i lawr ar ôl cael ei dyrchafu i'r urddolaeth.

Dywedodd aelod ward Malpas, sydd wedi bod yn Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai ers 2017:

"Mae'n anrhydedd mawr i arwain y Cyngor ac edrychaf ymlaen at wasanaethu'r cyngor a'r ddinas.

"Cefais fy magu yng Nghasnewydd, yn mynd i ysgolion lleol, ac rwyf wedi magu fy nheulu yma yn y ddinas felly mae ei gorffennol, yr oes sydd ohoni a'i dyfodol yn bwysig iawn i mi.

"Ymhlith fy nyheadau mae parhau â'r gwaith adfywio hanfodol a sicrhau ein bod ni'n cyflawni potensial y ddinas a'i phreswylwyr.

Penodwyd y Cynghorydd Roger Jeavons, Aelod Cabinet y cyngor dros Wasanaethau'r Ddinas, yn ddirprwy arweinydd.

Bydd hefyd dau aelod cabinet newydd: Y Cynghorydd Deb Davies dros ddatblygu cynaliadwy a'r Cynghorydd Abdul-Majid Rahman dros asedau.

UGAIN RHESWM I FAETHU PLENTYN YN 2020

Allech chi wneud gwahaniaeth i fywyd plentyn yn 2020?

Mae 20 rheswm da pam y dylech wneud y peth cadarnhaol hwn yn 2020:

- Mae angen cartref ar frys i blant a phobl ifanc lleol
- Byddwch yn helpu i adeiladu dyfodol cadarnhaol
- Mae maethu'n wych ac yn rhoi boddhad
- Byddwch yn gwneud gwahaniaeth am oes
- Cwrdd â phobl ofalgar eraill - fel chi
- Mae'n ffordd wahanol i dyfu'ch teulu
- Dewiswch ba fath o faethu sy'n iawn i chi
- Datblygwch sgiliau newydd ac ennill cymwysterau
- Gallwch helpu plentyn sydd wedi cael gorffennol anodd
- Bod yn rhan o'n cymuned faethu
- Gallwch wneud gwahaniaeth yn lleol
- Helpu i gadw plentyn yn ei ysgol
- Byddwch yn enghraifft gadarnhaol
- Byddwch yn rhoi teimlad o berthyn i blentyn
- Byddwch yn helpu i feithrin hyder plentyn
- Byddwch yn rhoi cyfle i blentyn mewn bywyd
- Gallwch newid eich gyrfa
- Gallwch helpu plentyn i gyflawni ei botensial llawn
- Mae maethu'n rhoi safbwyntiau newydd i chi
- Mae caredigrwydd yn teimlo'n dda

Rydym am i bobl leol feithrin plant lleol. Bydd eich cariad a'ch gofal yn rhoi'r cymorth a'r hyder sydd ei angen ar blentyn i dyfu a datblygu i greu dyfodol gwell.

Mae maethu yng Nghasnewydd yn golygu y byddwch yn rhan o dîm sy'n cydweithio i helpu i blant lwyddo. Gallai amrywio o saib byrdymor i leoliadau sefydlog hirdymor.

I ddysgu mwy, dewch i un o'n sesiynau galw heibio yn Ystafell y Castell, Canolfan Casnewydd, Ffordd y Brenin, rhwng 2pm a 4pm neu rhwng 5pm a 7pm ar ddydd Mercher 29 Ionawr. Bydd ein Tîm Gofal Maeth yno i ateb unrhyw gwestiynau.

Hoffem ddiolch i Casnewydd Fyw am gynnal y sesiynau hyn ac edrychwn ymlaen at eich gweld yno, ond yn y cyfamser, gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut i fod yn ofalwr maeth yng Nghasnewydd ac ar gyfer Casnewydd yn **www.newport.gov.uk/fostering**

FOSTER NEWPORT
CASNEWYDD MAETH

Y CYNLLUNN PRESWYLIO'N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau cyfagos a sefydliadau eraill i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal yn ddi-dor wedi Brexit.

Bydd angen i ddinasyddion yr UE ac aelodau eu teuluoedd sydd am barhau i fyw, gweithio ac astudio yn y DU wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE Mae pecyn cymorth ar gael ac mae gwasanaeth darllen dros ddogfennau nawr ar gael drwy Gyngor Dinas Casnewydd.

Mae gan ymgeiswyr tan 31 Rhagfyr 2020 (os bydd y DU yn gadael yr UE heb Gytundeb) neu 30 Mehefin 2021 (os bydd y DU yn gadael gyda chytundeb). Gellir gwneud y ceisiadau i'r Swyddfa Gartref ar-lein neu drwy app ffôn clyfar am ddim.

Fodd bynnag, does gan bawb ddim mynediad at ddyfeisiau o'r fath neu efallai'n teimlo'n ddihyder yn eu defnyddio. Mae Cyngor Dinas Casnewydd nawr yn cynnig gwasanaeth i wirio ac uwchlwytho'r dogfennau adnabod gofynnol i'r Swyddfa Gartref ac felly helpu gyda'r broses. Bydd angen talu ffi fechan.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth ac am y paratoadau'n gyffredinol ar gyfer Brexit ewch i **www.newport.gov.uk/brexit or call 01633 656656.**

CYNNYDD MEWN HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

Newidiodd wardeniaid diogelwch cymunedol Cyngor Dinas Casnewydd eu horiau gweithredu ym mis Hydref, a mynd i'r afael mwy â thipio anghyfreithlon a baw cŵn

Cyflwynwyd newidiadau i batrymau shifftiau er mwyn iddynt allu treulio mwy o amser yn ystod y dydd yng nghanol y ddinas a mannau eraill lle mae problemau.

Mae wardeniaid diogelwch cymunedol yn ymateb i gwynion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans sŵn, sbwriel a baw cŵn.

Ers 7 Hydref, maent wedi bod ar ddyletswydd o 1pm ymlaen, saith niwrnod yr wythnos.

Yn ystod mis cyntaf y trefniadau newydd, cyflwynodd y wardeniaid 77 o hysbysiadau cosb benodedig (HCB), ar gyfer gollwng sbwriel yn bennaf, ond hefyd ar gyfer tipio anghyfreithlon a baw cŵn.

Mae hyn yn cymharu gyda 12 yn Hydref 2018 ac mae'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â gweddill eleni - 31 yn Ebrill; 13 ym Mehefin; 27 ym mis Gorffennaf; 12 yn Awst a 35 ym Medi.

Dywedodd y Cynghorydd Ray Truman, yr Aelod Cabinet dros drwyddedu a rheoleiddio: *"Roedden ni am i'r wardeniaid fod yn fwy gweladwy a bod ar y strydoedd ar yr adegau pan fyddent yn cael yr effaith fwyaf. "mae'r cynnydd sylweddol yn nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig yn ystod mis cyntaf y patrwm newydd yn edrych fel petai'r newid wedi bod yn un call a gobeithio y bydd yn parhau felly.*

"Hoffwn ddiolch i'r wardeniaid am dderbyn y newidiadau yn eu horiau ac am eu gwaith clodwiw yn cyfrannu at yr ymdrech i wella amgylchedd y ddinas."

Gall y cyhoedd roi gwybod am broblemau drwy **incidents.wardens@newport.gov.ukwww.newport.gov.uk/report; 01633 656656** (8am tan 6pm) neu **01633 656667** ar ôl 6pm**.**

Adeilad sydd wedi ei drawsnewid yng nghanol y gymuned oedd y lleoliad ar gyfer lansio model newydd i ddarparu gwasanaethau hanfodol.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi datblygu model "hybiau a sbôcs" cymdogaethol i sicrhau dull mwy cydlynus ar gyfer preswylwyr sydd angen cymorth gan fwy nag un gwasanaeth.

Fel rhan o'r dull newydd o weithredu, gwnaed gwaith ailwampio sylweddol ar Ganolfan Ringland, canolbwynt Hyb y dwyrain sydd yn cynnwys Alway, dwyrain Casnewydd (Parc Moorland), Canolfan Hope Somerton a Chanolfan Beaufort yn Sain Silian.

Mae'r rhai eraill yn yr Hwb Canolog yng Nghanolfan Mileniwm Pillgwenlli gyda lloerennau neu sbôcs yn Llyfrgell yr Hen Billgwenlli, Sea Breeze a Stow Hill; Hyb y Gogledd yn y Bettws gyda Malpas a Shaftesbury; Hyb y Gorllewin ym Maesglas gyda chanolfannau Gaer a Dyffryn.

DOD Â GWASANAETHAU YNGHYD I DRIGOLION CASNEWYDD

ALLEN NI HELPU I WNEUD BYWYD YCHYDIG YN HAWS?

Gall Cyngor Dinas Casnewydd gyllido addasiadau bychain i gartrefi pobl sydd ag anableddau a bydd y gwasanaeth yn rheoli'r project drwyddi draw.

Mae grantiau diogelwch yn y cartref a chyfleusterau anabl ar gael i berchnogion tai a thenantiaid preifat.

Gall y tîm grantiau gwella tai helpu pobl sydd angen addasiadau megis canllawiau newydd; grisiau hanner maint; stafelloedd gwlyb a rampiau.

Gallwch ymgeisio ar-lein ar www.newport.gov.uk/grantiautai

CYMORTH I FUSNESAU

Mae cymorth ariannol ar gael gan Gyngor Dinas Casnewydd a UK Steel Enterprise ar gyfer busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yng Nghasnewydd.

Gellir defnyddio'r grantiau ar gyfer rhent y flwyddyn gyntaf, peiriannau ac offer, hyfforddiant anstatudol a ffioedd proffesiynol, meddalwedd a gwefannau. Mae telerau ac amodau'n berthnasol.

I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch **business.services@newport.**

ECONOMI YMWELWYR CASNEWYDD YN FFYNNU

Ymwelodd tua 4.7 miliwn o bobl â Chasnewydd llynedd, gan wario tua £412.5 miliwn, yn cefnogi dros 4,000 o swyddi, yn ôl ffigurau swyddogol.

Mewn ychydig dros ddegawd mae gwerth sector ymwelwyr y ddinas wedi mwy na dyblu.

Mae nifer o ddigwyddiadau mawr wedi bod â buddion mawr yn eu sgil i Gasnewydd eleni, gan ddenu dros £3.3 miliwn o wario lleol a 250,000 yn rhagor o ymwelwyr.

Mae'r rhain wedi cynnwys y Gemau Trawsblannu gwych, y gorau erioed yn ôl y trefnwyr, a Gŵyl Fwyd Casnewydd.

Mae ardaloedd gwledig, yn ogystal â chanol y ddinas, wedi cael hwb ariannol. Yn rhan o raglen ddatblygu wledig Dyffryn Wysg, cafodd Casnewydd £181,730 o gymorth ar gyfer projectau megis hyfforddiant teithio mewn grŵp, dosbarthiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a datblygu canllaw beicio mynydd.

Mae rhaglen y Gwastadeddau Byw yn dod yn ei blaen yn dda, gyda rhaglenni dehongli go iawn a rhithwir, llwybr cerfluniau a digwyddiadau gydol y flwyddyn.

Gyda chefnogaeth cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, mae'r gwaith hefyd yn cynnwys ailgyflwyno tegeirianau cynhenid, cofnodi hanesion llafar a chwrw arbennig hyd yn oed, sef y Stank Hen. Mae'r cynllun gwerth £4 miliwn yn gwneud cynnydd da tuag at gael ei gwblhau'n llwyddiannus.

Roedd y cyngor yn rhan o gais llwyddiannus gwerth £40,000 i Lywodraeth Cymru (Croes Cymru) ar gyfer Cronfa Ymglymu Twristiaeth Rhanbarthol (RTEF) i farchnata'n strategol dros bontydd Hafren yn sgil diddymu'r tollau. Ymunodd dros 50 o fusnesau â'r ymgyrch 15 mis.

Roedd Casnewydd hefyd ynghlwm wrth gais am gyllid RTEF a enillodd grant o £150,000 ar gyfer Hyb Marchnata De Cymru.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Jane Mudd: *"Rydym yn ffodus o gael busnesau a sefydliadau gwych yn y sector twristiaeth ac mae denu pobl i'r ddinas yn gwneud cyfraniad ehangach i'r economi leol.*

"Boed yn dod ar gyfer digwyddiadau mawr, megis Marathon ABP Casnewydd Cymru, neu'n ymweld â thirnodau lleol, byddant yn siŵr o gael croeso cynnes yn y ddinas.

"Rydym yn disgwyl y bydd niferoedd yn cynyddu eto yn yn sgil Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru ac mae gwestai newydd eisoes yn cael eu codi a'u hagor.

"yn ystod yr hydref, fe gynhaliom ddiwrnod datblygu cyrchfan gan wahodd busnesau a sefydliadau allweddol i roi mewnbwn i'n gweledigaeth a'n cynlluniau ar gyfer y ddinas. Gyda'n gilydd, gallwn wneud Casnewydd yn lle gwych i fyw, gweithio ac ymweld ag e."

GWNEUD CARTREFI'N GYNNES AC YN DDIOGEL

Mae benthyciadau gwella tai ar gael i landlordiaid a pherchnogion tai preifat y mae angen trwsio neu foderneiddio eu heiddo.

Un o ddibenion y benthyciadau yw sicrhau bod eiddo gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto, ond maen nhw hefyd ar gael i berchnogion-feddianwyr er mwyn iddynt allu gwneud eu cartrefi'n ddiogel ac yn gynnes.

Maen nhw ar gyfer trwsio neu wella cartrefi unigol, ailwampio eiddo gwag neu drosi eiddo nad ydyn nhw'n rhai preswyl i fod yn un neu ragor o unedau byw ynddynt, pan nad yw cyllid masnachol ar gael yn rhwydd.

Gellir darparu cyllid i berchenogion tai cymwys a fydd yn meddiannu'r eiddo ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Gallant fod yn arbennig o ddefnyddiol i bobl hŷn sydd heb forgais ond sydd ag incwm isel.

Gall landlordiaid hefyd ymgeisio am fenthyciadau i droi eiddo gwag, rhai masnachol a phreswyl, yn gartrefi newydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'r cyllid ar gyfer y cynllun diogel a chynnes sy'n cael ei weinyddu gan gyngor y ddinas.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.newport.gov.uk/housing;** e-bostiwch **housing.strategy@newport.gov.uk** neu rhowch alwad i'r rheolwr cyflenwi tai ar **01633 233592.**

TRWYDDEDAU HEBRYNGWYR

Oeddech chi'n gwybod bod angen trwydded hebrwng arnoch os ydych chi'n helpu gefn llwyfan mewn perfformiadau gan blant, megis dawns, cyngherddau, pantomeimiau, neu os ydych yn goruchwylio plant a phobl ifanc wrth ffilmio?

Mae'n ofyniad cyfreithiol sydd â'r nod o amddiffyn a diogelu plant. Mae rhagor o wybodaeth yn **www.newport.gov.uk/schools**

RHANNU'CH BARN YNGHYLCH CYNIGION Y GYLLIDEB

Mae cabinet Cyngor Dinas Casnewydd wedi ystyried cyllideb 2020-21 a sut y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus nawr ar agor ar gyfres o newidiadau i wasanaethau a chymorth a ddarperir gan y cyngor, a bydd ar agor tan ddiwedd Ionawr 2020.

Mae'r cyngor yn darparu dros 800 o wasanaethau i dros 151,000 o bobl sy'n byw mewn mwy na 65,000 o gartrefi.

Yng nghyfarfod cabinet y cyngor ym mis Rhagfyr, amlinellodd y Cynghorydd Jane Mudd, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd y sefyllfa a'r penderfyniadau anodd fyddai angen eu gwneud.

"Rydyn ni eisoes wedi gwneud arbedion a chyflwyno mesurau effeithlonrwydd sylweddol - £41 miliwn dros y bum mlynedd diwethaf.

Fodd bynnag, mae'r galw am wasanaethau, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol ac addysg, yn annhebygol iawn o leihau yn y dyfodol. O ganlyniad mae'n rhaid i ni bennu arbedion 'newydd' - o leiaf £21 miliwn dros y tair blynedd nesaf.

"Rydyn ni'n gwneud ein gorau glas i greu cynllun cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ond gyda llai o arian, llai o staff a galw mawr am wasanaethau. Mae'n hynod anodd.

"Yr her fawr yw ein bod am wneud mwy na darparu dim ond y gwasanaethau y mae'n gyfreithiol ofynnol i ni eu darparu - rydym am sicrhau bod Casnewydd yn lle deniadol i fyw, ac felly'n denu cyflogwyr ac yn creu swyddi.

"Mae barn ein trigolion a'n partneriaid yn bwysig i ni ac rydym yn eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y gyllideb. Mae'r adborth hwn yn helpu i lywio ein penderfyniadaustrategol a dod i ddeall sut bydd ein penderfyniadau yn effeithio ar ein dinas a'n cwsmeriaid.

"Un rhan o'r gyllideb sydd wastad yn anodd creu cydbwysedd derbyniol ynddi yw'r dreth gyngor. Er ei bod yn cyfrannu llai na chwarter y gyllideb gyfan, rydym yn deall ei bod yn wariant mawr i drigolion. Mae Casnewydd yn gyson wedi bod yn ddinas sy'n codi'r gyfradd dreth gyngor isaf yng Nghymru - a waeth faint bynnag yr hoffem beidio, mae'n rhaid i ni ystyried ei chodi, ond hyd yn oed wedyn byddem yn disgwyl ei bod yn parhau'n isel iawn o'i chymharu ag awdurdodau eraill."

Mae manylion llawn ynghylch cynigion 2020-21 yn **www.casnewydd.gov.uk/cyllideb** lle gallwch hefyd weld mwy am ffynonellau incwm y cyngor a'r her gyffredinol sy'n wynebu'r gyllideb.

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar agor tan 31 Ionawr 2020 a bydd pob ymateb wedyn yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn eu cyfarfod ym mis Chwefror.

PERFFORMIO'N DDA O RAN CYNLLUNIO

Mae adroddiad blynyddol yn dangos bod cynllunwyr Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio'n dda wrth i'r ddinas barhau i dyfu.

Mae'r pumed adroddiad cynllunio yn trafod rhai o ddatblygiadau mawr a cherrig milltir pwysig yr ardal, yn ogystal â'r perfformiad o ran cynllunio.

Unwaith eto, mae'r cyngor wedi perfformio'n dda yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru ac nid oes unrhyw feysydd wedi eu nodi i'w gwella.

Ym mhob mesur bron, roedden nhw'n well na'r targed, gyda'r mwyafrif yn y categori da a phedwar yn unig wedi eu nodi'n weddol.

Roedd Casnewydd yn un o chwe awdurdod cynllunio yng Nghymru (o 22 ohonynt) oedd â'r gofyniad bod cyflenwad tir ar gael ar gyfer cartrefi am 5 mlynedd, gyda'r ffigur yn 5.6 mlynedd yma.

Roedd canran y ceisiadau mawr a dderbyniodd benderfyniad o fewn yr amser gofynnol yn 77 y cant, o'i gymharu â 68 y cant drwy Gymru gyfan.

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

CWM PILTON NAWR YN NODDFA I GERDDWYR

Ymweliad â safle Cwm Pilton: chwith yn y cefn, y Cyngh David Mayer, Swyddog CDC Luke Stacey a'r Cynghorydd James Clarke, ac ar y chwith yn y blaen, y Cyngh Jane Mudd, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd a'r Cyngh Deb Harvey

A mae project i wella llwybrau cerdded yng Nghwm Pilton wedi'i gwblhau gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Mae'r gofod agored amgylcheddol, sy'n gartref i amrywiaeth o gynefinoedd o laswelltir a choetir i redyn a glwyptir, bellach yn rhoi cyfle i gerddwyr grwydro'r safle hyfryd hwn a gweld y gwaith sydd wedi'i wneud.

Bu gweithwyr wrthi am ychydig dros ddau fis ar y project i osod strwythurau metel a phlastig wedi ei ailgylchu yn lle'r

hen bontydd a llwybrau pren oedd wedi dirywio dros y blynyddoedd.

Mae llwybr cylchol mwy hygyrch â ramp hygyrchedd gwell hefyd wedi'i greu fel y gall ymwelwyr grwydro a gweld y bywyd gwyllt lleol.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Harvey, yr aelod cabinet dros ddiwylliant a hamdden:

"Ry'n ni wrth ein bodd o fod wedi gallu gwella'r man agored hwn, oedd wedi dirywio a'i fandaleiddio dros y blynyddoedd diwethaf.

"Dwi'n gobeithio y gall ymwelwyr nawr fwynhau'r safle, sy'n cynnig amgylchedd mwy dymunol i bawb o bob oedran."

Mae mynediad i'r safle oddi ar Pillmawr Road, lle mae lle i nifer fach o geir, neu drwy'r mynedfeydd i gerddwyr o ystâd Cwm Pilton.

Mae gwasanaethau Bws Casnewydd hefyd yn rhedeg drwy'r ystâd. I gael rhagor o wybodaeth am beth gallwch ei ddisgwyl yn y safle hwn, ewch i:

www.newport.gov.uk/countryside

ALLECH CHI AILGYLCHU MWY?

Mae miloedd o bobl dros y ddinas yn ailgylchu eitemau'r cartref yn hapus bob wythnos ar gyfer casgliadau ymyl y palmant gan bartneriaid Cyngor Dinas Casnewydd, Wastesavers.

Ar gyfer pobl sydd yn trafferthu penderfynu pa eitem sydd yn mynd i ba flwch yna mae'n werth bwrw golwg ar wefan Wastesavers – **www.wastesavers.co.uk** – ar gyfer rhestr lawn.

Fel nodyn atgoffa cyflym dyma beth sy'n mynd i bob blwch neu fag::

Bag coch: Plastigau yn cynnwys cartonau menyn/marjarîn, potiau iogwrt a photeli diodydd ynghyd â hambyrddau ffoil glân a thuniau metel

Bocs gwyrdd: Cardfwrdd a thetrapacks ynghyd â photeli a jariau gwydr. Os oes gormodedd o gardfwrdd gennych mae Wastesavers yn awgrymu eich bod yn rhoi'r bocs gwyrdd allan

Bocs glas: Papur (dim papur lapio sgleiniog gan na ellir ailgylchu hwn) dillad ac esgidiau ac eitemau trydanol bach sy'n ffitio yn y blwch fel tostiwr.

Mae gwastraff bwyd yn mynd yn y cadi brown bach ar gyfer eich cegin gyda bagiau gwastraff bwyd a gaiff eu casglu wedyn yn y cadi mwy ei faint gaiff ei wagio'n wythnosol.

MEWN RHIGOL O RAN EICH GYRFA?

Mae Coleg Gwent yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar fenter i gynnig y cyfle i bobl ennill y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i ail-sgwennu eu gyrfa.

Mae cyrsiau wedi eu dylunio i fynd i'r afael â phrinder sgiliau yng Nghymru yn y sector peirianneg, adeiladu, a TGCh er mwyn helpu pobl sydd yn gobeithio gwella eu gyrfaoedd neu ei newid yn llwyr.

Cyfrif Dysgu Personol (CDP) sydd ar gael i unrhyw un dros 19 oed sydd mewn cyflogaeth, ond yn ennill llai na £26k y flwyddyn. Mae'r cynllun yn cynnig iddynt fynediad am ddim i gyrsiau hyblyg er mwyn ennill y cymwysterau angenrheidiol a'r sgiliau i ddechrau ar yrfa newydd.

Bydd yr holl gyrsiau yn cael eu cynnal gyda'r nos neu ar benwythnosau, yn ogystal ag yn yr wythnos, er mwyn cynnig dysgu hyblyg a chyfleus o gwmpas eich gwaith a'ch bywyd teuluol presennol. Golyga hyn y gallwch aros yn eich cyflogaeth presennol tra'n ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt a'u hangen arnynt.

Coleg Gwent yw'r unig goleg yn ne Cymru sy'n cynnal y cynllun peilot dwy flynedd yma gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd y project yn rhoi cymorth i tua 1,000 o gyfranogwyr dros gyfnod y cynllun peilot.

Dwedodd Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg: *"Mae cyflogwyr yn y sectorau peirianneg, adeiladu a TGCh yn profi prinder sgiliau cynyddol ac yn chwilio i recriwtio unigolion sydd â'r sgiliau galwedigaethol perthnasol a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt er mwyn llenwi'r bylchau presennol ac yn y dyfodol. Bydd y project newydd hwn yn eu helpu nhw i wneud hynny."*

Gwnewch gais nawr - www coleggwent.ac.uk/pla

CANOLFAN YMWELWYR NEWYDD ARFAETHEDIG AR GYFER PONT GLUDO CASNEWYDD

Cyflwynwyd cynlluniau ar gyfer y ganolfan ymwelwyr newydd i Bont Gludo Casnewydd i Gyngor Dinas Casnewydd.

Mae'r cynllun yn rhan o broject y Gronfa Dreftadaeth sydd werth miliynau o bunnoedd i sicrhau dyfodol y strwythur eiconig a chynnal rhaglen o waith cynnal a chadw hanfodol ar y safle.

Dyluniwyd canolfan ymwelwyr newydd gan AWW Architects i fod yn gyfoes a hefyd i adlewyrchu hanes a phensaernïaeth ddiwydiannol gyfoethog yr ardal.

Dywedodd Chris Mitchell, pensaer a chyfarwyddwr AWW:

"Mae'n bleser cyfrannu at y cynigion cyffrous hyn drwy ddylunio adeilad newydd a fydd yn gwella'r Bont Gludo, gan helpu i greu atyniad treftadaeth o'r radd flaenaf yng Nghasnewydd."

Mae project y Gronfa Dreftadaeth yn cefnogi adfywio ac ail-osod Casnewydd fel cyrchfan i ymwelwyr tra bod dyluniad y ganolfan ymwelwyr yn cysylltu'r adeilad â'r bont gan archwilio a gwella profiad ymwelwyr wrth ddringo i ben y bont ac yn ôl ar draws y gondola.

Dwedodd Aelod Cabinet dros ddiwylliant a hamdden Cyngor Dinas Casnewydd, y Cynghorydd Debbie Harvey y gall y ganolfan ymwelwyr newydd gael ei defnyddio gan ysgolion, ymwelwyr a grwpiau cymunedol:

Mae'r ganolfan ymwelwyr hefyd wedi cael ei dylunio fel y bydd yn dod yn adnodd i'r gymuned leol ac yn atynfa a all ddarparu ar gyfer amryw swyddogaethau drwy gynnwys ystafelloedd cymunedol, mannau digwyddiadau a chaffi newydd sy'n edrych dros y bont.

"Yn y dyfodol bydd pobl yn gallu cynnal dathliadau teuluol yn y ganolfan mewn lleoliad unigryw. Rydym yn gyffrous iawn ar gyfer y dyfodol".

Mae'r Bont Gludo wedi cau ar hyn o bryd ar gyfer y tymor ymwelwyr ond bydd yn agor unwaith yn rhagor o 1 Ebrill 2020 tan 27 Medi.

Oriau agor arferol y bont yn ystod y tymor yw rhwng 10am a 5pm. Dydd Mercher i Ddydd Sul.

Bydd manylion pellach am y digwyddiadau yn ystod y tymor i'w gweld ar wefan y cyngor, ewch i **www.newport.gov.uk/transporterbridge** a bydd manylion i'w gweld hefyd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y cyngor, dilynwch ni ar **Facebook/nptbridge** a **Twitter @NpTBridge**

ADDEWID POBL IFANC A GWAITH CELF NEWYDD

Yn ddiweddar, daeth Casnewydd yn un o'r ardaloedd cyntaf yng Nghymru i gytuno ar Addewid Pobl Ifanc - siarter hawliau a disgwyliadau fydd yn rhoi siâp i'r ffordd y mae'r cyngor yn gweithio gyda a dros bobl ifanc

Ym mis Tachwedd, cyfarfu Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd i lansio'r Addewid a'r gwaith celf newydd sy'n cynrychioli pobl ifanc y ddinas.

Mae'r mosaig yn cynnwys delweddau 'hun-luniau' o bobl ifanc gyda graffeg o'r Ganolfan Ddinesig - pawb ohonynt wedi cyfrannu at y drafodaeth neu wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Addewid.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd y Cyngor ar adeg y lansio: "Rwy'n hynod hapus bod hwn yn un o'r ymrwymiadau allweddol y mae fy nghabinet wedi'i gyflawni, yn enwedig oherwydd fy nghefndir fel athro a fy ymrwymiad hirdymor i gydnabod hawliau pobl ifanc a meithrin eu talentau.

"Hefyd, roeddwn yn credu ei bod hi'n bwysig bod y gwaith celf hwn yn cael lle blaenllaw yn ein prif ystafell bwyllgor. Bydd yn atgof amlwg i'r holl wleidyddion yn yr ystafell hon nad un rhan o dair o'n poblogaeth yn unig yw pobl ifanc, ond yn hytrach y dyfodol cyfan!"

Mae Addewid Pobl Ifanc yn un o'r addewidion sydd yng nghynllun corfforaethol y Cyngor ac yn dilyn gwaith eang gyda phobl ifanc Casnewydd, fe wnaethant lunio Addewid chwe cham, sy'n debyg i Siarter chwe phwynt y Bobl, sydd â chysylltiad hanesyddol â Chasnewydd.

Dyma'r ymrwymiadau sydd yn yr Addewid:

1. Mae'r holl bobl ifanc yn cael lleisio'u barn a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw

2. Gall pobl ifanc fanteisio ar addysg a chyfleoedd dysgu

3. Caiff yr holl bobl ifanc yr un cyfleoedd i wireddu eu potensial waeth beth yw eu hil, rhywedd, crefydd, anabledd, statws LHBTC+ a dewis iaith (Cymraeg)

Lansio'r Addewid

4. Bydd Cyngor Casnewydd yn gweithio gyda gwasanaethau eraill i helpu i gadw pobl ifanc yn ddiogel

5. Mae iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles pobl ifanc yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw

6. Mae gan bobl ifanc lefydd diogel i chwarae a chymdeithasu ynddynt

Daeth llawer o bobl ifanc oedd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Addewid, gan gynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Ieuenctid Casnewydd, i'r lansiad. (llun)

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.newport.gov.uk

YSBRYDOLI I GYFLAWNI

Mae Ysbrydoli i Gyflawni yn ceisio ymgysylltu â bron i 4,000 o bobl ifanc nad ydynt yn mynd ymlaen i gyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn ne-ddwyrain Cymru.

Mae'n gweithio i leihau ac atal pobl yn gadael ysgol a choleg yn fuan yn ogystal â rhoi ffyrdd eraill i addysg a hyfforddiant.

Gall y tîm helpu pobl ifanc trwy unrhyw anhawster a allai olygu eu bod yn wynebu risg o adael yr ysgol neu goleg cyn gorffen neu gael eu tynnu oddi ar gwrs.

Gall hyn gynnwys cymorth academaidd; sgiliau astudio; ymdopi â straen a gorbryder neu gyngor ariannol.

Mae manteision y cyngor hefyd yn cynnwys iechyd a lles gwell i bobl ifanc ynghyd â gosod moeseg gwaith a dyheadau uwch.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn arwain a rheoli'r project ar ran y pedwar cyngor, Gyrfaoedd Cymru a dau goleg addysg pellach arall. Daw'r arian ar gyfer y rhaglen Ysbrydoli i Lwyddo tair blyneddo Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

COFNODION TIPIO ANGHYFREITHLON YN CWYMPO

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn credu mai gweithio mewn partneriaeth a gwaith caled Balchder yng Nghasnewydd, y tîm tipio anghyfreithlon sydd wedi arwain at ostwng digwyddiadau o dipio yn ôl ffigyrau a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru y mis diwethaf.

Amlygodd ffigyrau a ryddhaodd StatsCymru ar destun ffigyrau tipio anghyfreithlon trwy'r holl awdurdodau lleol y ffaith bod y nifer yng Nghasnewydd wedi cwympo o 3,588 yn 2017/18 i 2,697 yn 2018/19.

Mae'r cwymp yn y ffigyrau yn dod yn rhannol o newid yn y ffordd y caiff digwyddiadau o dipio anghyfreithlon eu hadrodd - fel y nododd Tipio Anghyfreithlon Cymru yn 2018 - yn ogystal â gwaith y tîm Balchder yng Nghasnewydd.

Golygodd hyn y cyfrid casgliadau 'gwastraff gormodol' a gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon gyda'i gilydd cyn 2018 ond bellach mae'r ffigyrau yn cynrychioli gwir dipio anghyfreithlon.

"Mae tîm Balchder yng Nghasnewydd yn gweithio'n galed i atal tipio anghyfreithlon ac ymgysylltu â nifer o grwpiau cymunedol i godi sbwriel. Maen nhw'n gweithio ar y cyd â'n partneriaid yn yr heddlu a'r frigâd dân i godi ymwybyddiaeth ac felly mae'r ymdrechion hyn wedi helpu lleihau nifer y digwyddiadau.

Er y bu gostyngiad net yn y tipio anghyfreithlon ar y cyfan, hoffem weld rhagor o welliannau o ran gostwng niferoedd tipio anghyfreithlon ar raddfa fasnachol yn y ddinas a hoffem atgoffa preswylwyr bod gofyniad cyfreithiol arnynt (dyletswydd gofal) i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cânt wared ar eu gwastraff yn iawn. Rydym hefyd yn gofyn iddynt sicrhau bod gan unrhyw gwmni y maent yn ei ddefnyddio Drwydded Cludwr Gwastraff ddilys.

Fodd bynnag, hoffem ddiolch i bawb sy'n helpu yn ein brwydr yn erbyn tipio anghyfreithlon.

MARATHON

Bydd Casnewydd unwaith eto yn paratoi at groesawu miloedd o redwyr ac ymwelwyr Marathon a Ras 10K Casnewydd gan Gymdeithas Porthladdoedd Prydain eleni, a fydd yn digwydd ddydd Sul 19 Ebrill 2020

Mae cannoedd o redwyr eisoes wedi cymryd mantais ar y prisiau mynediad lansio a gwerthodd y llefydd bron yn syth ar ôl eu rhyddhau.

Fodd bynnag, mae cyfle eto i gofrestru i gymryd rhan os brysiwch chi, ewch **newportwalesmarathon.co.uk/register-marathon/**

Ni allai'r digwyddiad fwrw yn ei flaen heb gymorth noddwyr; prif noddwr y marathon ydy ABP, a chaiff gymorth gan Healthspan, Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy, Prifysgol De Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd a Llywodraeth Cymru. Y brif elusen ydy NSPCC Cymru.

Chris Bird o Chichester enillodd y ras y llynedd, mewn amser na welwyd o'r blaen, sef 2 awr 31 munud a 34 eiliad, ddau funud gyfan cyn Scott Harrington o Otley AC a 44 eiliad yn gyflymach na buddugwr y llynedd.

Carla Swithenbank, cyn heddwas o Gasnewydd enillodd y ras i fenywod yn ei milltir sgwâr ei hun, gan orffen 24 eiliad yn gynt na'i hamser gorau ei hun, a dyna fuddugoliaeth ddwbl i'w chlwb rhedeg: Mickey Morris Racing Club, yn dilyn pencampwraig y llynedd, Natasha Cockram.

Mae llwybr y marathon yn boblogaidd ymhlith rhedwyr oherwydd ei bod yn un o rasys marathon mwyaf gwastad yn Ewrop felly mae'n ddelfrydol i redwyr am y tro cyntaf neu'r rhai sydd eisiau amser cyflym.

Mae'n cychwyn ac yn dod i ben ar lannau afon hyfryd y ddinas ac yn tywys rhedwyr heibio i dirnodau eiconig yn cynnwys Pont Gludo'r ddinas, golygfeydd trawiadol Gwastatiroedd Gwent gyda bywyd gwyllt yr arfordir

LANSIO YMGYRCH #DWEDWCHWRTHONNI

#DwedwchWrthonNi yw neges ymgyrch newydd gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gyfer ysgolion lleol.

Cafodd ei lansio yn sgil nifer o ddigwyddiadau'n cynnwys disgyblion a'u rhieni ac ysgolion ac unigolion yn cael eu beirniadu ar y cyfryngau cymdeithasol - heb yn wybod i'r ysgol yn aml.

Mae ymgyrch newydd #DwedwchWrthonNi yn annog rhieni a gofalwyr i gysylltu â'r ysgol pan fo problem yn hytrach na throi at y cyfryngau cymdeithasol a'u defnyddio fel arf fwlio.

Drwy ddefnyddio'r neges #DwedwchWrthonNi, mae'r cyngor yn gobeithio annog ymateb mwy cadarnhaol gan gymunedau ysgolion.

Dywedodd aelod y cabinet dros addysg a sgiliau, y Cynghorydd Gail Giles, bod y cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn ddefnyddiol,

wrth rannu newyddion da am lwyddiannau ysgolion er enghraifft, ond eu bod hefyd yn gallu lledu anfodlonrwydd.

Dywedodd: *"Rydym yn gwerthfawrogi y bydd mwyafrif y bobl yn adrodd materion i staff yr ysgol, ond nod yr ymgyrch #DwedwchWrthonNi yw cyrraedd y bobl hynny nad ydynt yn gwneud hyn a'u hannog i roi gwybod i'r ysgol gyntaf.*

"Mae'n brifo a gall weithiau fod yn niweidiol i Benaethiaid a staff gael gwybod bod problem yn bodoli pan fyddant yn clywed amdani drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

"Mae'n rhoi cyfle hefyd i bobl, sydd heb wybodaeth am y broblem na'r bobl, rannu newyddion ffug.

"Mae ysgolion eisiau gwybod pan fo problem er mwyn trafod yn gwrtais gyda phawb sy'n ymwneud â'r mater."

Drwy ymgyrch #DwedwchWrthonNi byddwn hefyd yn annog i newyddion da gael eu lledaenu a bydd ysgolion yn croesawu cyfraniadau gan eu cymunedau lleol ar ffurf syniadau.

Mae posteri i hyrwyddo'r ymgyrch #DwedwchWrthonNi mewn ysgolion ac maent yn cynnwys cyfeiriad e-bost yr ysgol dan sylw er mwyn cynnig pwynt cyswllt uniongyrchol i rieni a gofalwyr.

Os na ellir datrys problem drwy #DwedwchWrthonNi gall rhieni a gofalwyr fynd drwy weithdrefn gwynion yr ysgol, y mae manylion amdani ar wefan yr ysgol.

Yn genedlaethol mae straeon wedi eu dogfennu'n dda iawn am achosion pan ddefnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i danseilio unigolion a grwpiau a'u defnyddio yn arf i fwlio heb roi fawr, os o gwbl, o gyfle i'r targed unioni'r fantol.

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob ysgol gael polisi gwrth-fwlio i leihau ac atal bwlio.

Anogir disgyblion i ddweud wrth eu rhieni, gofalwyr neu athrawon os cânt eu bwlio. Mae cyngor ar gael ar wefan y cyngor, ewch **i www.newport.gov.uk/en/Schools-Education/Bullying.aspx**

Poster ymgyrch #DwedwchWrthonNi

AGB CASNEWYDD NAWR I BARHAU AM BUM MLYNEDD ARALL

Cadeirydd AGB Casnewydd Nawr Zep Bellavia ar ôl y canlyniad llwyddiannus

Mae Ardal Gwella Busnes Casnewydd Nawr wedi derbyn cefnogaeth am y bum mlynedd nesaf yn sgil pleidlais lwyddiannus ymhlith busnesau canol y ddinas.

Pleidleisiodd 64 y cant o'r busnesau a fwriodd bleidlais o blaid parhau â'r AGB.

Mae'r canlyniad yn dangos bod busnesau â gwerth ardrethadwy o dros £2.2 miliwn wedi pleidleisio o blaid.

22% oedd y ganran a bleidleisiodd. Bydd AGB Casnewydd Nawr yn rheoli buddsoddiad gwerth dros £1.3 miliwn dros y bum mlynedd nesaf, yn adeiladu ar lwyddiant y bum mlynedd diwethaf.

Meddai Kevin Ward, rheolwr yr AGB, *"Mae canlyniad y bleidlais wedi ein plesio'n fawr. Mae'n dangos bod busnesau yng nghanol y ddinas yn deall pwysigrwydd cael AGB i'w cynrychioli ac i helpu gwella canol ein dinas.*

"Rydym yn edrych ymlaen nawr at ehangu'r Ardal Gwella Busnes i gynnwys rhai o fusnesau bywiog glannau'r afon, Clarence Place a Clytha Park Road."

Dywedodd Zep Bellavia, Cadeirydd Bwrdd yr AGB: "Mae busnesau canol y ddinas yn angerddol dros Gaerdydd a diben yr AGB yw cynrychioli eu buddiannau a sicrhau bod arian yn cael ei wario'n briodol."

Bydd AGB2 Casnewydd Nawr ar waith o Ebrill 2020 am bum mlynedd.



Arbedwch amser Ewch ar-lein
Adrodd, Gofyn, Talu ac Olrhain
Gwasanaethau'r Cyngor ar unrhyw adeg
www.newport.gov.uk

Save time Go online
Report, Request, Pay & Track
Council services at any time
www.newport.gov.uk

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD

ECO-SÊR YN LANSIO CYNLLUN CYDNABOD FFLYDOEDD CYNTAF CYMRU

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ymuno â'r Cynllun Cydnabod Fflydoedd ECO-Sêr.

Cynllun cydnabod fflydoedd gwirfoddol yw ECO-Sêr sy'n annog ac yn cefnogi gweithredwyr HGVs, faniau a bysus i redeg eu fflydoedd yn fwy effeithlon a gwella safon aer lleol.

Mae uned trafnidiaeth Cyngor Dinas Casnewydd, Newport Norse a Wastesavers wedi cofrestru, ynghyd ag Owens Group, Amberon Traffic Management a Jumbo Cruiser.

A nawr mae'r Cyngor yn chwilio am ragor o gwmnïoedd i ymuno ac arbed arian ar danwydd.

Cynhaliodd y Cynghorydd Ray Truman, aelod cabinet trwyddedu a rheoleiddio lansiad yn y ganolfan ddinesig yng Nghasnewydd ym mis Tachwedd y llynedd i gydnabod ymdrechion y rheiny sydd wedi ymuno â'r cynllun hyd yn hyn ac i nodi manteision cofrestru i gwmnïau lleol.

"Rydym yn falch o ddod â'r cynllun ECO-Sêr i Gasnewydd a byddwn yn rhannu'r neges o ran y manteision pan fydd gweithredwyr fflyd yn cofrestru i gael help a chyngor ar sut i weithredu'n fwy effeithlon, lleihau defnydd tanwydd ac o ganlyniad lleihau costau.

"Bydd hyn yn helpu ymdrech y Cyngor tuag at Gasnewydd mwy gwyrdd a glân."

Mae Uned Trafnidiaeth Cyngor Dinas Casnewydd wedi cael sgôr pedair seren gan y cynllun.

Dywedodd Ann Beddoes, rheolwr cynllun ECO-Sêr o Gyngor Bwrdeistref Metropolitan Barnsley:

"Mae'n bleser gennyf groesawu Cyngor Dinas Casnewydd fel aelodau o ECO-Sêr, y cynllun cyntaf yng Nghymru. Dymunaf bob llwyddiant iddynt yn eu hymdrech i leihau llygredd aer a gwella ansawdd aer."

I ddarllen mwy ynghylch ymuno â chynllun ECO Sêr ewch i **www.newport.gov.uk**